# YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN

'Nid da lle gellir gwell'

## Gwersi offerynnol / Instrumental lessons

Annwyl Riant / Gofalwr
Fel y gwyddoch mae disgyblion yr ysgol yn ffodus iawn bod hyfforddiant mewn amrediad i wersi offerynnol ar gael iddynt.

Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn ac yn dymuno i bob disgybl gael mynediad mewn modd cynaliadwy. Felly mae **tymor cyntaf y gwersi yn rhad ac am ddim** fel y gall disgyblion gael rhagflas ar gyfer yr offeryn, ond o'r ail dymor ymlaen, pe byddech chi'n dymuno i'ch plentyn dderbyn hyfforddiant cerddoriaeth peripatetig, bydd yn ofynnol i chi wneud cyfraniad ariannol. Pwysleisiaf y bydd hwn yn gyfraniad a bydd yr ysgol yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r gost.

Y cyfraniad gofynnol fydd **£ 50: 00 y disgybl yr offeryn y tymor,** a bydd y taliadau'n cael eu gwneud ar ddechrau pob tymor. Mae hyn yn £150 y flwyddyn @ 39 wythnos = £ 3: 85 yr wythnos. Bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim yn talu cost is o 50%. Mae hwn yn dâl o £25 y tymor (£ 1: 93 yr wythnos)

A gaf i dynnu eich sylw at y materion canlynol:

- ni roddir unrhyw ad-daliad pe bai'ch plentyn yn colli gwers.
- ni roddir unrhyw ad-daliad pe bai'ch plentyn yn penderfynu rhoi'r gorau i'r offeryn yn ystod y tymor.
- ni roddir unrhyw ad-daliad pe bai'r athro peripatetig yn absennol am gyfnod rhesymol o amser (pe bai unrhyw salwch tymor hir, bydd disgwyl i'r awdurdod ddarparu athro cyflenwi dros dro)
- ni roddir unrhyw wersi i unrhyw ddisgybl oni bai bod contract a chyfraniad wedi dod i law.
- mae disgwyl i'ch plentyn ymarfer gartref.
- bydd eich plentyn yn derbyn offeryn gan y sir ar fenthyg tra bydd eich plentyn yn derbyn gwersi. Mae hyn i'w ddychwelyd pan fydd y plentyn yn gadael Ysgol Parc y Tywyn neu os daw gwersi i ben.

Byddwn yn ceisio bodloni anghenion yr holl ddisgyblion, gan sicrhau parhâd I'r disgyblion sydd eisoes yn derbyn hyfforddiant offerynnol.

A fyddech gystal â llofnodi'r cytundeb atodedig a'i ddychwelyd i'r ysgol cyn gynted â phosibl, ynghyd â'ch cyfraniad cyntaf.

**Amserlen taliadau:**
Taliad 1: Dydd Mawrth 4ydd Ionawr 2022
Taliad 2: Dydd Llun 25ain Ebrill 2022

Dylid gwneud sieciau'n daladwy i Ysgol Parc y Tywyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen cyngor arnoch ynglŷn â hyfforddiant peripatetig, cysylltwch â'r ysgol: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru

*Dear Parent / Guardian*
*As you are aware, the pupils in the school are fortunate in being offered a range of instrumental lessons.*

*The Governing Body of the school value these opportunities and wish for all pupils to have access in a sustainable manner. The **first term of lessons therefore are free** so that pupils can have a taster for the instrument however from the second term onwards, should you wish for your child to receive peripatetic music tuition, there will be a requirement for you to make a financial contribution. I emphasise that this will be a contribution and the school will be shouldering most of the cost.*

*The required contribution will be **£50:00 per pupil per instrument per term**, the payments being made at the beginning of each term. This is £150 a year @39 weeks = £3:85 a week.*
*Those pupils in receipt of Free School Meals will pay a reduced cost of 50%. This is a charge of £25 per term (£1:93 a week)*

*May I draw your attention to the following issues:*

- *there will be no reimbursement should your child miss a lesson.*
- *there will be no reimbursement should your child decide to discontinue the instrument during the term.*
- *there will be no reimbursement should the peripatetic teacher be absent for a reasonable length of time (should there be any long-term illness, the authority will be expected to provide temporary cover)*
- *there will be no lessons for any pupil unless a contract and contribution have been received.*
- *your child is expected to rehearse at home.*
- *your child will receive an instrument from the county on loan whilst your child is in receipt of lessons. This is to be return when the child leaves Ysgol Parc y Tywyn or if lessons end.*

*We will endeavour to meet the needs of all the pupils, ensuring continuation for pupils who already receive instrumental tuition.*

*Please sign the attached agreement and return it to school as soon as possible, along with your first contribution.*

***Payment schedule:***
*Payment 1: Tuesday 4th January 2022*
*Payment 2: Monday 25th April 2022*

*Cheques should be made payable to Ysgol Parc y Tywyn.*

*Should you have any questions or require advice regarding peripatetic tuition please contact the school: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru*

Yn gywir / Yours sincerely
***C Davies***
Pennaeth / Headteacher

# Cytundeb gwersi offerynnol / Instrumental lessons agreement 2021 / 2022

Dychwelwch gyda'r arian i'r ysgol / *Return with the money to school*

| |
|---|
| Enw'r disgybl<br>*Name of pupil* |
| Dosbarth<br>*Class* |
| Offeryn / Instument 1 |
| Offeryn / Instument 2 |

Rwy'n deall:

- mai'r tymor cyntaf yn unig sydd yn rhad ac am ddim.
- y byddaf yn talu'r cyfraniad gofynnol o **£50: 00 y disgybl yr offeryn y tymor,** a bydd y taliadau'n hynny yn cael eu gwneud ar ddechrau pob tymor.
- ni roddir unrhyw ad-daliad pe bai fy mhlentyn yn colli gwers.
- ni roddir unrhyw ad-daliad pe bai fy mhlentyn yn penderfynu rhoi'r gorau i'r offeryn yn ystod y tymor.
- ni roddir unrhyw ad-daliad pe bai'r athro peripatetig yn absennol am gyfnod rhesymol o amser (pe bai unrhyw salwch tymor hir, bydd disgwyl i'r awdurdod ddarparu athro cyflenwi dros dro)
- ni roddir unrhyw wersi i unrhyw ddisgybl oni dderbynnir y cytundeb a'r cyfraniad wedi dod i law.
- disgwylir i'm plentyn ymarfer gartref.
- bydd fy mhlentyn yn derbyn offeryn gan y sir ar fenthyg tra bod fy mhlentyn yn derbyn gwersi. Mae hyn i'w ddychwelyd pan fydd fy mhlentyn yn gadael Ysgol Parc y Tywyn neu os daw gwersi i ben.

*I understand that:*

- *the first term only is free.*
- *I will pay the contribution of* ***£50:00 per pupil per instrument per term****, with payments being made at the beginning of each term.*
- *there will be no reimbursement should my child miss a lesson.*
- *there will be no reimbursement should my child decide to discontinue the instrument during the term.*
- *there will be no reimbursement should the peripatetic teacher be absent for a reasonable length of time (should there be any long-term illness, the authority will be expected to provide temporary cover)*
- *there will be no lessons for any pupil unless a contract and contribution have been received.*
- *my child is expected to rehearse at home.*
- *my child will receive an instrument from the county on loan whilst my child is in receipt of lessons. This is to be return when my child leaves Ysgol Parc y Tywyn or if lessons end.*

Byddaf yn sicrhau y gwneir taiadau yn unol â'r amserlen ganlynol:
*I will ensure that the payment is made according to the following schedule:*
Taliad / Payment 1: Dydd Mawrth 4ydd Ionawr 2022 / *Tuesday 4th January 2022*
Taliad / Payment 2: Dydd Llun 25ain Ebrill 2022 / *Monday 25th April 2022*

Taliadau i'w gwneud mewn arian parod neu siec (sieciau'n daladwy i Ysgol Parc y Tywyn)
Payment may be made in cash or by cheque (please make cheques payable to Ysgol Parc y Tywyn)

| |
|---|
| Enw'r Rhiant / Gofalwr<br>*Name of Parent / Carer* |
| Llofnod y Rhiant/ Gofalwr<br>*Signature of Parent / Carer* |
| Dyddiad / *Date* |

Pennaeth : C Davies
Heol Y Bardd, Porth Tywyn, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn/Tel : (01554) 832101 Ebost/ E-mail : admin@parcytywyn.ysgolccc.org.uk